# Pwyllgor Cyllid

**FIN(3)-02-08 : Papur 3 : Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG - Atodiad 3**

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Adroddiad Gan y Pwyllgor Cyllid
## Adroddiad ar y Mesur ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007

### Y Cefndir:

1. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn datgan:

14.2 Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda,

gyflwyno adroddiadau arnynt:

(i) gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig

### Ystyriaeth

2. Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad ar y Mesur ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG(Cymru), 2007 yn ei gyfarfod ar 20 Medi a chymryd tystiolaeth gan y swyddogion fu wrthi'n paratoi'r wybodaeth ariannol:

Janet Davies, Pennaeth yr Uned Cynorthwyo a Datblygu Llywodraethu Clinigol

Pat Vernon, Pennaeth y Gangen Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd

### Adroddiad

3. Ystyriodd y Pwyllgor y gwaith a wnaed i asesu'r costau fyddai'n dod yn sgil rhoi'r Mesur ar waith.  Nodasant fod yr amcan gostau a ddarparwyd wedi'u seilio ar nifer o ragdybiaethau gan yr Adran Iechyd a bod y ffigyrau ar gyfer Cymru wedi'u hallosod o'r rhain.

4. Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod nifer o ffactorau eraill a allai beri bod yr amcan gostau'n anghywir gan gynnwys yr amrywio yn nifer yr hawliadau bob blwyddyn yng Nghymru a'r amrywio mawr o flwyddyn i flwyddyn o ran yr hyn a delir yn gyffredinol am esgeulustod.   Nodasant hefyd y byddai'r Mesur arfaethedig yn ehangach ac yn ystwythach na'r ddeddfwriaeth Seisnig a bod y gwahaniaeth hwn o ran cwmpas yn awgrymu y byddai'r costau'n gyfatebol uwch yng Nghymru.

5. Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith mai darparu system symlach a thecach o iawn oedd nod y Mesur ac mai un canlyniad posibl fyddai agor y drws ar nifer o hawliadau fu'n cronni am gyfnod. Nodasant hefyd y gallai fod newid arall er gwell yn niwylliant y GIG ac y byddai hynny'n arwain at agwedd fwy agored pan âi rhywbeth o'i le.

6. Nododd y Pwyllgor fod y gwaith o asesu costau'r Mesur yn parhau a bod tri gweithgor ar fin cychwyn ar eu gwaith. Disgwylid iddynt ddarparu adroddiad interim cyn pen y flwyddyn 2007.

### Casgliad

7. Roedd y Pwyllgor yn siomedig bod yr wybodaeth ar gyfer asesu'r gost o weithredu'r Mesur mor wantan.  Er eu bod yn derbyn bod gwneud penderfyniadau yn y maes hwn yn anodd, roeddent o'r farn y gallasid fod wedi darparu gwybodaeth gadarnach fel y gallai'r Pwyllgor bwyso a mesur y rhagdybiaethau a wnaethpwyd. Maent yn ystyried bod hyn yn bwysig nid yn unig mewn perthynas â'r Mesur Gwneud Iawn ei hun ond am y byddai unrhyw orbrisio neu danbrisio 'r costau yn effeithio wedyn ar y cyllidebau ar gyfer polisïau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru.

8. Nododd y Pwyllgor y bydd Swyddogion yn dal i weithio ar y ffigyrau ac y byddai'r gwaith hwn wedi'i seilio ar yr wybodaeth a geir gan y gweithgorau sydd wedi'u sefydlu.   Roeddent yn siomedig bod y Mesur wedi dod cyn cwblhau'n ddigonol yr asesiad o'i effaith ariannol.

9. Barn y Pwyllgor yw na all asesu effaith Mesur Arfaethedig Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG mewn modd dibynadwy.   Mae'n dod i'r casgliad mai'r unig ddewis sydd ganddo bron yw argymell na chynhelir y ddadl gyntaf ar egwyddorion cyffredinol y Mesur nes bod y Pwyllgor, ac yn oblygiadol felly Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol, wedi cael cyfle i ystyried yr amcan brisio gwell fydd yn deillio o'r gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**Alun Cairns AC**
**Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid**